



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU



OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

Cyflwyniad i Ddatganiad
Cyfrifon y Comisiynydd Heddlu a
Throsedd a'r Grŵp **2019/20**

Cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae angen i mi sicrhau bod yr arian a dderbynnir gennyf oddi wrth grantiau gan y llywodraeth a'r dreth gyngor yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd i ddarparu plismona a gwasanaethau eraill i Ogledd Cymru.

Mae gofyn i mi:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn iawn a sicrhau fod un o fy swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny;
- rheoli materion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu asedau;
a
- chymeradwyo datganiad cyfrifon grŵp.

Rhaid i mi hefyd arwyddo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Grŵp, a geir ar ddiwedd dogfennau'r Datganiad o Gyfrifon.

Yr un sy'n gyfrifol am weinyddu'r materion ariannol yw Kate Jackson, fy Mhrif Swyddog Cyllid. Mae hefyd wedi paratoi cyflwyniad i'r Datganiad o Gyfrifon, sy'n cynnwys crynodeb o'r wybodaeth ariannol fwyaf pwysig sydd yn y cyfrifon. Mae hi a fy Mhrif Swyddog Gweithredol, Stephen Hughes, ynghyd â staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn fy nghefnogi i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu asedau.

Mae gennyf hefyd gefnogaeth y Cydbwyllgor Archwilio sy'n rhoi pwyslais annibynnol a ffocws lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol. Dim ond drwy ddefnyddio arian yn ddoeth yr wyf yn gallu cyflawni'r addewidion yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Ceir manylion llwyddiannau a pherfformiad dros yr un cyfnod yn fy Adroddiad Blynyddol.

Archwilir y Datganiad o Gyfrifon Grŵp gan Archwilio Cymru, sy'n cyflwyno safbwynt 'gwir a theg' o sefyllfa ariannol, ac a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol. Maent hefyd yn gwneud asesiad i weld os oes gennyf drefniadau digonol yn eu lle i sicrhau economi, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd yn y defnydd o adnoddau.

Dwi'n falch o weld fod cyllidebau wedi cael eu rheoli yn dda drwy gydol y flwyddyn ariannol, gydag ychydig o danwario yn y cyfrifon diwedd blwyddyn. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn yn gadarnhaol, sy'n rhoi sicrwydd ychwanegol i mi fod rheoli a llywodraethu fel y dylai fod.



Arfon Jones

Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019 (CIPFA/LASAAC) yn rhoi arweiniad i ni ar sut y dylem baratoi ein cyfrifon i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a hefyd yn unol â deddfwriaeth. Gofynnir i ni ddangos mantolen cronfeydd y trethdalwyr (arian wrth gefn a ellir eu defnyddio) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Tra bod rhaid i ni gydymffurfio gyda'r gofynion hyn wrth baratoi ein Datganiad Cyfrifon ar gyfer y pwrpas o osod treth y cyngor a monitro ein hincwm a'n gwariant, gallwn fesur ein perfformiad ariannol yn y flwyddyn drwy gymharu ein cyllideb gydag ein halldro (incwm presennol a gwariant yn y flwyddyn) a'r effaith ar y gronfa wrth gefn ddefnyddiadwy.

Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw derbynnydd cychwynnol pob incwm, p'un ai os yw'r arian yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Heddlu. Am y rheswm hwn, ynghyd â'r cyfrifon fe welwch symiau uwch na'r disgwyl yng nghyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn seiliedig ar y gwariant a reolir gan y Swyddfa hon. Mae hyn er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Llywodraethu Lleol. Yn yr un modd, mae yna eitemau sy'n gorfod ymddangos ar daflen mantolen y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae hyn oherwydd nad oes hawl gan y Prif Gwnstabl fod yn berchen arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys tir ac adeiladau, arian yn weddill neu ddiffygion ar y cronfeydd pensiwn. Mae'r golofn grŵp ar bob un o'r datganiadau statudol yn dangos y safle cyffredinol ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau rhwng y ddau gorff.



Kate Jackson
Prif Swyddog Cyllid

AR DDIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL TROSGLWYDDODD Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD £1.521M I'R CRONFEYDD WRTH GEFN:

Gwariant Refeniw	Cyllideb ddiwygiedig 2019/2020	Alldro (Presennol) 2019/20	Amrywiant Gorwario/Tanwario
	£m	£m	£m
Costau Gweithwyr	135.815	135.652	(0.163)
Costau nad ydynt yn ymwneud â staff	34.149	33.817	(0.332)
Cyllid Cyfalaf o gyllideb refeniw	2.998	2.998	-
Cronfa diogelwch cymunedol	1.567	1.518	(0.049)
Partneriaethau	2.785	2.785	-
Incwm	(23.750)	(25.487)	(1.737)
Gwariant refeniw net	153.564	151.283	(2.281)
Cyllid cyfalaf o gronfeydd wrth gefn	3.536	1.460	(2.076)
Gwariant gweithredu net	157.100	152.743	(4,357)
Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	(3.633)	0.724	4.357
Trosglwyddiad i'r/o'r gronfa wrth gefn gyffredinol	0.797	0.797	-
Cyfanswm trosglwyddiadau i'r/o'r cronfeydd wrth gefn	(2.836)	1.521	4.357
Gwariant net cyffredinol	154.264	154.264	-

Y prif reswm am y tanwario refeniw o £2.281m yw:

- **Gweithwyr – tanwariant o £0.163m.**

Dyma'r effaith net ar nifer o eitemau. Gwneir yn fwy nag iawn am orwariant o £0.838m mewn cyflogau swyddogion oherwydd tanwario sy'n cynnwys cyflogau a goramser staff (tanwariant o £0.239m), hyfforddiant a chostau eraill (tanwariant o £0.253m) a thaliadau pensiwn uniongyrchol (tanwariant o £0.472m). Mae cyfran sylweddol o'r gorwario mewn cyflogau swyddogion yn gysylltiedig â'r heddlu yn bod yn rhagweithiol wrth recriwtio swyddogion ychwanegol er mwyn ateb targedau Ymgyrch Uplift. Mae'r tanwario mewn taliadau pensiwn yn uniongyrchol yn ymwneud yn bennaf ag oedi mewn ymddeoliadau, ac am y rheswm hwn penderfynwyd dosrannu £0.200m i'r Gronfa Afiechyd Wrth Gefn.

- **Safleoedd – tanwariant o £0.226m**

Gohiriwyd gwaith yn Llandygai a gwaith diogelwch £0.176m. O ganlyniad, yn lle tynnu £0.141m o Gronfa wrth Gefn Diogelwch Ystadau a Chynnal a Chadw, fel y cynlluniwyd, cynyddwyd y gronfa wrth gefn £0.046m i ariannu'r prosiectau hyn.

- **Trafnidiaeth – tanwariant o £0.181m**

Mae hyn yn unol â'r amcanestyniad blaenorol, gyda'r tanwario mwyaf yn codi o Lwfansau Ceir a Theithio (£0.125m).

- **Cyflenwadau a Gwasanaethau – gorwariant o £0.495m**

Cyfuniad yw hwn o nifer o achosion o danwario a gorwario ar raddfa lai. Y mwyaf o'r rhain yw £0.140m ar gyfer TG a Chyfathrebiadau.

- **Ni wariwyd y Chwyddiant ac Arian Wrth Gefn o £0.420m ar ddiwedd y flwyddyn.**

- **Derbyniwyd incwm ychwanegol o £1.737m. Mae eitemau sylweddol yn cynnwys:**

- Roedd incwm o secondiadau yn £0.481m yn uwch na'r gyllideb
- Roedd incwm o erlyniadau dan arweiniad yr heddlu yn £0.148m yn uwch na'r gyllideb.
- Roedd incwm dysgu yn £0.097m yn uwch na'r gyllideb.
- Derbyniwyd ad-daliadau ychwanegol o £0.340 o ran:
 - Prosiect Cyflenwyr Mewnol Rhanbarthol
 - Cynghrair Drylliau Tanio
 - Gan Bwyll
- Mae incwm grant ychwanegol o £0.242 a gyhoeddwyd yn chwarter olaf y flwyddyn yn cynnwys:
 - PEQF
 - Taser
 - Seiber

Yn gynwysedig uchod mae cost Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Roedd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn yn £833,648 a'r alldro yn £854,435. Mae'r gorwariant yn ymwneud â £20,000 ar gyfer y Prosiect Ymgysylltiad Ieuenctid (hysbysiad penderfyniad DM.2019/11).

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Yn ogystal â chyllideb Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd, gweinyddwyd £2.785m o wariant o grantiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd hyn yn cynnwys grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi dioddefwyr troseddau, ac oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen VAWDASV.

Dangosir cysoni rhwng yr alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant ar dudalen 11 o'r Datganiad Cyfrifon.

Mae'r tabl uchod yn cynnwys effaith gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ar y cyfrif incwm a gwariant a'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau gydag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn, fel tiroedd, adeiladau, cerbydau a rhai offer TG. Pan fydd asedau yn cael eu gwerthu, rhaid i dderbynebaw dros £10,000 gael eu trosglwyddo i Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn a gellir eu defnyddio i ariannu rhaglen gyfalaf neu er mwyn ad-dalu dyled yn unig. (Mewn cyferbyniad, mae'r gronfa wrth gefn sydd wedi ei chlustnodi o'r enw'r Gronfa Gyfalaf wrth Gefn yn deillio o refeniw. Gall y Comisiynydd drosglwyddo symiau rhwng y gronfa gyffredinol ac unrhyw gronfa sydd wedi'i chlustnodi fel y gwêl yn briodol. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu hadolygu yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu dosrannu yn briodol i gyflawni cynlluniau'r Comisiynydd.)

Mae'r system Gorchymyn a Rheoli yn galw am uwchraddiad sylweddol. Amcangyfrif y bydd hyn i gyd yn fwy na £2m. Bydd y gyllideb a gymeradwyir at y pwrpas hwn ym mis Ionawr 2020 yn annigonol i ariannu hyn. Felly amcangyfrifir y bydd angen £1.7m o'r tanwariant refeniw (wedi ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol) ar gyfer y pwrpas hwn. Mae'r penderfyniad olaf yn dibynnu ar gymeradwyo'r achos busnes, a bydd y gyllideb ar gyfer y cynllun yn cael ei phenderfynu ar y pwynt hwnnw.

Y rhaglen gyfalaf gwreiddiol ar gyfer 2019/20 oedd £6.667m. Gan ystyried llithrant o 2018/19 a rhai mân ychwanegiadau a dileu cynyddodd hyn i £9.176m. Yr alldro cyfalaf ar gyfer 2019/20 oedd £6.374m. Bydd y rhan fwyaf o'r amrywiant yn cael ei gario ymlaen (llithrant - mae galw am yr arian am waith sydd ddim wedi ei gwblhau eto). Mae pob amrywiant yn cael ei ystyried yn unigol i asesu os yw wedi codi o ganlyniad i arbediad (y prosiect yn costio llai na'r gyllideb) neu wahaniaethau amseru (llithrant).

Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi bwriadu derbyn 22 cerbyd yn ystod Mawrth 2020 ond oherwydd Pandemig Covid19, derbyniwyd y rhain rhwng Ebrill a Mai 2020.

Mae'r swm uchaf o lithrant (yn nhermau canrannau ac arian) yn ymwneud â TG a Chyfathrebiadau. Roedd hwn yn rhaglen uchelgeisiol ac nid oedd yn bosib cyflawni nifer o brosiectau o fewn y flwyddyn ariannol. Mae'r eitem unigol fwyaf o fewn yr adran hon yn ymwneud â Rhaglen Alluogi Genedlaethol (NEP) gyda llithrant o £0.491m. Gan mai cynllun cenedlaethol yw hwn, cyfyngedig yw ein rheolaeth ar nifer o elfennau, ac mae gan nifer o'n cynlluniau gydberthynas ag NEP. Mae rhaglen TG a Chyfathrebu yn parhau i gael ei fonitro yn ofalus i sicrhau bod arian yn cael ei ddosrannu i gynlluniau a fydd yn dod â'r manteision gorau i Heddlu Gogledd Cymru.

Cynllun	Cyllideb 2019/20 (wedi ei hailbroffilio) £'000	Gwariant 2019/20 £'000	Tanwariant/ Llithriant
Stadau	1,371	1,079	292
Cerbydau ac offer	2,342	1,878	464
TG a Chyfathrebiadau	5,463	3,417	2,046
Rhaglen Gyfalaf	9,176	6,374	2,802

Mae angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadw cronfeydd wrth gefn. Nid oes hawl ganddo osod cyllideb a allai adael y cronfeydd wrth gefn a ellir eu defnyddio wedi eu gordynnu. Mae crynodeb o'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn i ddilyn. Gellir cael gwybodaeth o fewn y [Datganiad Cyfrifon](#).

Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn 2019-20	Mantolen 31 Mawrth 2019 £'000	Ail-ddatganiad 31 Mawrth 2019 £'000	Trosglwyddiadau Allan 2019-2020 £'000	Trosglwyddiadau mewn 2019-2020 £'000	Cyfanswm Symudiadau £'000	Mantolen 31 Mawrth 2020 £'000
Cronfa wrth gefn gyffredinol	4,392	-	-	797	797	5,189
Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd:						
Cronfa Gyfalaf wrth Gefn	2,060	-	(801)	1,743	942	3,002
Cronfa Pensiynau Afiechyd wrth Gefn	915	-	-	200	200	1,115
Cronfa PFI wrth Gefn	4,333	(1,200)	-	44	(1,156)	3,177
Cronfa Digwyddiadau Difrifol wrth Gefn	2,435	-	-	-	-	2,435
Cronfa Yswiriant wrth Gefn	1,173	-	-	-	-	1,173
Cronfa Diogelwch a Chynnal a Chadw Stadau wrth Gefn	1,033	1,200	(131)	177	1,246	2,279
Cronfa Mantolenni Partneriaethau wrth Gefn	653	-	-	21	21	674
Cronfa Rheoli Newid wrth Gefn	5,949	-	(659)	-	(659)	5,290
Cronfa hyfforddiant wrth Gefn	-	-	-	100	100	100
Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd wrth Gefn	461	-	-	49	49	510
Cronfa Gyfreithiol wrth Gefn (SCHTh)	56	-	-	-	-	56
Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd	182	-	(19)	-	(19)	163
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	19,250	-	(1,610)	2,334	724	19,974
Cyfanswm Cronfeydd Refeniw wrth Gefn	23,642	-	(1,610)	3,131	1,521	25,163
Cronfa Derbynebaw Cyfalaf wrth Gefn	9	-	(310)	355	45	54
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy	23,651	0	(1,920)	3,486	1,566	25,217

Mae'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (a welir uchod) yn cynrychioli mantolen cronfeydd y trethdalwyr oedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 31 Mawrth 2020. Mae'r daflen mantolen yn cynnwys cronfeydd wrth gefn andefnyddiadwy, sy'n cael eu creu oddi wrth y trafodion sydd angen er mwyn i'r datganiadau cyfrifo gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Er i'r pandemig Covid-19 gael cyn lleied o effaith â phosib yn ystod 2019/20, gyda'r cyfyngiadau symud yn dechrau ond wythnos cyn diwedd y flwyddyn ariannol, rhagwelaf y bydd gwahaniaethau mewn incwm a gwariant yn ystod 2020/21 o ganlyniad i hyn. Mae bron i un rhan o dair o'r gweithlu yn gweithio o'r cartref, ac ond yn ymweld â safleoedd yr heddlu yn achlysurol os oes angen. Mae swyddogion heddlu wedi cael teclynnau sy'n defnyddio'r rhyngwrdd, ac yn gallu gwneud mwy o'u gwaith y tu allan i'n hadeiladau. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi ei [Gynllun Ymateb i COVID-19](#) ac mae nifer o'r gweithrediadau o'r nodwedd hon o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a geir ar ddiwedd y Datganiad o Gyfrifon.

Yn gyffredinol, mae'r cyfrifon yn dangos bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi rheoli eu harian yn dda yn 2019/20 gyda thanwariant refeniw bach ar ddiwedd y flwyddyn, 1.5% yn unig o'r gyllideb yn gyffredinol. Parhaodd cyfanswm cronfeydd refeniw wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn i fod yn 16% o'r gyllideb flynyddol (yn cyfateb i o dan 2 fis o wariant). Gyda'r angen i uwchraddio system yr ystafell reoli yn y tymor canolig, y galw sy'n codi yn dilyn y pandemig Covid-19 a'r ansicrwydd parhaus dros ariannu yn y dyfodol, bydd y cronfeydd wrth gefn hyn yn allweddol i'n gallu i barhau i gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.